# Cyfansoddiad cemegol sêr

ELYSE W, mae gen i'r gêm yma! Ar ba lefel wyt ti?

DYLAN 'Wy nawr ar *The Fish Tank Fiasco*.

ELYSE Dw i heb gyrraedd fan 'na eto. Pa gliwiau 'sgen ti?

DYLAN Fawr ddim. Mae gen i ôl bys a sgrap o bapur sy'n dweud "dilyna'r enfys".

Ond, be sy 'da enfys i wneud gydag olion bysedd?

ADA Chwilio am "ôl bys enfys".

Mae pob seren yn gadael ôl bys unigryw yn y sbectrwm golau. Maen nhw'n dweud wrthyn ni o beth mae'r seren wedi ei gwneud.

ELYSE Sut?

ADA Wel Elyse, pan mae golau'n teithio trwy elfen yn atmosffer y seren, mae'r elfen yn gadael patrwm unigryw yn y sbectrwm golau. Y patrwm yma yw ôl bys yr elfen.

ELYSE Sut mae hi'n gwybod fy enw i?

ADA Wrth i olau deithio oddi wrth y seren, mae rhai tonfeddi golau yn cael eu hamsugno gan nwyon penodol yn atmosffer y seren.

Pan mae golau'r seren yn cyrraedd y Ddaear, a'n bod ni'n hollti'r golau gan ddefnyddio prism, dylen ni weld sbectrwm llawn o holl liwiau'r enfys. Ond dydyn ni ddim. Ry'n ni'n gweld bod rhai rhannau o'r sbectrwm ar goll, a hynny mewn patrwm penodol - ôl bys yn yr enfys. Yr enw ar hwn yw sbectrwm amsugno.


© Hawlfraint BBC

Mae gwyddonwyr wedi gwneud profion mewn labordai i weld pa elfennau sy’n gadael pa olion bysedd yn y sbectrwm. Gallwn roi y rhain ochr yn ochr â sbectrwm amsugno seren, er mwyn datgelu pa elfennau sy’n bresennol ynddi.

Hei! Helo?

O, dw i’n gweld…

’Dyw tu allan ddim cystal â hynny.


© Hawlfraint BBC